**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Chwefror 2019

Annwyl Mick,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019. Byddaf yn ymateb i bob un o'r pwyntiau a godwyd gennych yn eich llythyr yn eu tro.

Nid oes proses benodol ar gyfer y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb pan fydd OS Ymadael â'r UE yn cael ei dynnu'n ôl a'i ail-osod gan Lywodraeth y DU. Mae'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar y rheswm pam y tynnwyd yr OS yn ôl, a pha newidiadau sy'n ofynnol i'r OS cyn iddo gael ei ail-osod yn Senedd y DU. Mae nifer bach iawn o OSau wedi cael eu tynnu'n ôl a'u hail-osod ac mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried pob achos yn unigol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r OS wedi cael ei dynnu'n ôl oherwydd bod mân wallau wedi cael eu canfod (fel gwallau sillafu ac anghywirdeb mewn perthynas â chyfeirnodau Rheoliadau'r UE). Yn yr achosion hyn, mae swyddogion wedi ystyried nad oes angen unrhyw gamau, oherwydd nad yw'r mân gywiriadau hyn yn effeithio ar sylwedd yr OS, nac yn effeithio ychwaith ar gydsyniad Gweinidogion Cymru. Yn y nifer bach iawn o achosion lle bu'n rhaid gwneud newidiadau mwy arwyddocaol, mae swyddogion wedi gweithio gyda'r swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i ddeall sail resymegol ac effaith y newidiadau. Pan fydd y newidiadau wedi cael effaith sylweddol ar OS, ymgysylltwyd â'r Gweinidogion a phenderfynwyd a ydy'r newidiadau yn effeithio'n sylweddol ar gydsyniad Gweinidogion Cymru ac a ddylid cadarnhau'r cydsyniad i'r OS neu ei dynnu'n ôl.

Yn yr achos penodol hwn, ni chafodd Gweinidogion Cymru wybod bod yr OS yn cael ei dynnu'n ôl a'i ail-osod tan iddo gael ei ail-osod am yr ail dro ar 17 Ionawr. Nid oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw faterion hyd at y pwynt hwn ond rhoddwyd gwybod iddynt wedi hynny fod camgymeriadau wedi cael eu canfod yn y ddwy atodlen i'r rheoliadau ychydig wedi iddynt gael eu gosod ar 16 Ionawr ar ôl cael eu dilysu yn gyfreithiol.

Yn ogystal â hynny, cafodd swyddogion wybod yr wythnos ddiwethaf gan eu swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU fod pwyllgor deddfwriaethol Tŷ'r Arglwyddi wedi gofyn am

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ragor o fân ddiwygiadau, a oedd yn golygu bod rhaid gosod y rheoliadau am y trydydd tro ar 30 Ionawr. Nid yw'r naill set o ddiwygiadau na'r llall wedi newid diben nac effaith y rheoliadau. Mae swyddogion yn fodlon bod y rheoliadau terfynol i gael eu gosod gan Lywodraeth y DU ar 30 Ionawr yn adlewyrchu'r dull a gytunwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit.

Nodaf eich barn, pan fydd OS yn cael ei dynnu'n ôl a'i ail-osod, y dylai'r datganiad ysgrifenedig cysylltiedig hefyd gael ei dynnu'n ôl a'i ail-gyhoeddi. Mae clercod hefyd wedi mynegi'r farn hon i swyddogion.

Yn ôl ein dehongliad ni o OS.30C nid yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog, a lle y bo'r newidiadau yn hynod fân ac yn cael dim effaith o gwbl ar sylwedd yr OS (fel cywiro gwallau sillafu), ni fyddai o unrhyw werth tynnu sylw atynt.

Fodd bynnag, os ydych chi o'r farn y byddai'n fuddiol er tryloywder y broses, gallwn osod datganiadau ysgrifenedig diwygiedig pan fydd OSau y DU yn cael eu tynnu'n ôl a'u hail-osod ar gyfer gweddill y rhaglen OSau Ymadael â'r UE.

Diolch ichi hefyd am dynnu ein sylw at y materion drafftio yn y datganiad ysgrifenedig ar gyfer yr OS hwn. Gellir ymdrin â'r materion hyn drwy ddiwygio'r datganiad ysgrifenedig.

Rydych hefyd wedi gofyn am ragor o wybodaeth am agwedd Llywodraeth Cymru tuag at ymgyngoriadau ar gyfer y DU gyfan ar yr OSau Ymadael â'r UE. Yn gyffredinol, nid yw OSau Ymadael â'r UE wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd maent yn gwneud cywiriadau technegol i unioni diffygion yn y llyfr statud. Fodd bynnag, ceir eithriadau lle ystyrir bod angen ymgynghori. Yn yr achosion penodol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i bennu pa fath o ymgynghoriad sydd angen ei gynnal, gan ddibynnu ar y newidiadau sydd i'w gwneud a phwy yr effeithir arnynt.

Yn unol ag Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002, roedd yn ofynnol ymgynghori ar Reoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori byrrach o bythefnos ar gyfer y rheoliadau hyn. Ystyriwyd bod angen gwneud hyn i sicrhau bod swyddogion y DU yn bodloni'r dyddiad ar gyfer gosod y rheoliadau a – gan ystyried y prosesau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y rheoliadau – eu bod yn atgynhyrchu'r rheini a nodir yng nghyfraith yr UE fel y mae ar hyn o bryd. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw rwystrau ychwanegol ar gyfer y diwydiant na chyrff gorfodi. Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu â'r rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru ond ni chafwyd unrhyw ymateb.

Rydych wedi gofyn am eglurhad ar arfer pwerau cydredol. Hoffwn eich cyfeirio at fy ymateb yn eich llythyr am hawliau bridwyr planhigion, a oedd yn codi'r un pwynt ynglŷn ag effaith creu pwerau cydredol a rhoi swyddogaethau ar gyrff y DU gyfan ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Hyderaf y bydd yr ymateb hwnnw yn darparu'r eglurder yr ydych chi wedi gofyn amdano.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd